

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 31/01/2022 7:00yh – O Bell - COVID-19

John Brinley Jones (Cad)	David Andrew Parry	Greta Hughes	Claire Russell-Griffiths
Gwenllian Davenport Hughes	Alan Harper-Smith	Ian Goronwy Williams	William Roger Jones
Alaw Ceris	Ann L Williams (Cyfieithydd)	Pat Humphreys (Clerc)	

Mae'r Cyfarfod heno yn cael ei gynnal dros y we gyda meddalwedd Zoom yn unol â chyfarwyddiadau COVID-19

Gofynnodd y cadeirydd i bawb sydd eisiau cyfrannu yna iddynt roi eu llaw i fyny a pan fydd angen pleidleisio i bawb wneud drwy ddangos llaw.

1. Ymddiheuriadau

Thomas Victor Jones.

2. Datgan Buddiant Ariannol neu Personol

Dim.

Teyrnged i'r Diweddar Mr William Penri Jones gan John Brinley Jones a William Roger Jones

Bu Mr Jones yn aelod ffyddlon o Gyngor Cymuned Llanbedrog am dros 44 o flynyddoedd ac yn cynrychioli Plwyf Llanbedrog fel Cynghorydd Sir am 16 o flynyddoedd sy'n andros o wasanaeth dros drigolion plwyf Llanbedrog. 'Roedd ei gariad tuag at yr ardal, y trigolion â'r iaith yn ddiffuant, ac yn cael ei adlewyrchu yn amlwg drwy ei holl waith diflino ar y Cyngor Cymuned â'r Cyngor Sir. Fe fu chwith mawr ar ei ôl ac estynwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mair, Esyllt, lolo a'r plant.

3. Cofnodion Pwyllgor Brys 23/11/2021

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.

Cynnig: David Andrew Parry Eilio: William Roger Jones

Cofnodion Pwyllgor 29/11/2021

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.

Cynnig: David Andrew Parry Eilio: Gwenllian Davenport Hughes

4. Unrhyw Fater Brys

Cronfa Cymunedau Mentrus

Derbyniwyd ebost gan Alys Lloyd Jones ynglŷn â chronfa sydd ar gael i Gynghorau Cymuned a Thref ar gyfer hyfforddiant neu ddatblygu cynlluniau. Cafwyd nifer o wahanol awgrymiadau, un gan Alaw Ceris sef ffordd o sefydlu menter cymdeithasol yn y Neuadd ac un arall gan David Andrew Parry sef sefydlu gerddi cymdeithasol ar dir yn y cae chwarae fel mae Tafarn y Plu, Llanystumdwy wedi ei wneud, cynigiodd Alaw Ceris gysylltu hefo Alys Lloyd Jones i drafod hyn ac ebostio pawb hefo diweddariad a cytunodd bawb.

5. Datblygiad Solar PV Lôn Pin

Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

Cofnodion Cyfarfod 31/01/2022 7:00yh – O Bell - COVID-19

Yn dilyn y pwyllgor diwethaf fe anfonwyd mwy o gwestiynnau i Chris Bale ac yn gofyn am ymateb erbyn 17^{eg} o Ionawr 2022 ond ni chafwyd ymateb felly fe anfonodd y clerc ebost arall iddo ar y 20^{fed} o Ionawr 2022 ond eto ni chafwyd ymateb. Cytunodd bawb nad oedd pwrpas anfon ebost arall ond disgwyl i weld beth y maent yn mynd i wneud gyda'r mater yn y dyfodol a gobeithio y byddent yn cysylltu gyda diweddariad.

6. Sedd Wag

Yn dilyn marwolaeth Mr William Penri Jones mae sedd wag ar Cyngor Cymuned Llanbedrog ac mae'r cadeirydd yn cynnig er parch i Mr William Penri Jones i beidio ei hysbysebu a'i gadael yn wag nes y bydd etholiadau Cynghorau Cymuned a Thref ym mis Mai eleni. Datgannodd Ian Goronwy Williams, Greta Hughes a William Roger Jones eu bod yn cytuno hefo'r cadeirydd a pasiwyd y cynnig yn unfrydol.

7. Llwybrau

Mae'r cynghorydd lleol Angela Russell wedi rhoi neges ar facebook ynglŷn â'r tir lithriad ar llwybr yr arfordir wrth ymyl Carreg y Defaid, mae swyddog llwybr yr arfordir wedi bod allan yn asesu'r tir lithriad a bydd y gwaith trwsio yn digwydd yn y gwanwyn. Bydd y llwybr yn cael ei fonitro bob yn ail wythnos, mae'n saff am y tro ond gyda gofal. Dywedodd Ian Goronwy Williams fod y rhan yna o'r llwybr ddigon saff ond bod rhan arall ohono wrth ymyl caeau Crugan yn fwy peryglus ond maent wedi rhoi ffens o'i amgylch.

Derbyniwyd ebost gan Iwan Hughes yn dweud fod un o'r meinciau sydd ar ben mynydd Tir Cwmwd wedi cael ei llosgi a gofynnodd Ian Goronwy Hughes os oedd diweddariad. Dywedodd y cadeirydd fod y plac ganddo fo yn saff ac er parch fe fydd rhaid cael mainc newydd yn ei lle. Gofynnodd Greta Hughes os mai'r Cyngor Cymuned oedd wedi prynu'r fainc ac edrychodd y cadeirydd ar y plac i weld os oedd dyddiad arni, 2015 yw'r dyddiad ar y plac felly gofynwyd i'r clerc edrych drwy'r cofnodion i weld os yw'n dweud pwy sydd wedi rhoi y fainc yno ac adrodd yn ôl mis nesaf.

Nid yw'r cadeirydd wedi cael cyfle i gysylltu hefo Arwel Jones ynglŷn â cael gwybodaeth am y llwybr tân ar Mynydd Tir Cwmwd, mae Alaw Ceris am anfon ei gyfeiriad ebost i'r cadeirydd gael cysylltu hefo fo.

Holodd Claire Russell-Griffiths am y fainc a gafodd y Cynghorydd Angela Russell i'r ardal pan oedd llwybr y morwyr yn cael ei wneud ac os oedd hi wedi cael ei gosod yn rhywle ond nid oes neb yn gwybod dim am y fainc felly mae hi am holi'r cynghorydd lleol i weld beth sydd wedi digwydd iddi. Mae hi wedi derbyn neges yn ôl yn dweud nad oedd neb wedi bod yn ei chasglu felly mae hi wedi ei chadw'n saff. Fe fydd angen penderfynnu ble i roi'r fainc yma erbyn pwyllgor nesaf ac fe fydd Claire Russell-Griffiths wedi cael mwy o wybodaeth amdani erbyn hynny.

8. Y Fynwent

Gweithredoedd y fynwent newydd.

Cafwyd diweddariad gan y clerc ei bod yn bosibl rhoi enw Cyngor Cymuned Llanbedrog ar weithredoedd y fynwent newydd yn lle rhoi enw aelodau unigol

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod 31/01/2022 7:00yh – O Bell - COVID-19

o'r Cyngor Cymuned ac wedyn yn gorfod mynd drwy'r broses cymleth a chostus o newid yr enwau pan mae un o'r aelodau yn gadael y Cyngor. Os yw'r Cyngor Cymuned yn dymuno gwneud hyn fe fydd rhaid i Greta Hughes a Iwan Hughes arwyddo'r gweithredoedd drosodd i'r Cyngor Cymuned a cael dau arall i arwyddo hefyd. Cytunodd yr aelodau yn unfrydol i roi new Cyngor Cymuned Llanbedrog ar y gweithredoedd a'r clerc i gysylltu hefo Elin Tudur o Swyddfa Bryn Martin i wneud y gwaith angenrheidiol.

Cafwyd diweddariad gan y cadeirydd ar cais cynllunio y fynwent newydd. Mae rhai problemau ynghylch y cais newydd sef pryderon sydd wedi cael eu codi gan Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru o ganlyniad i'r ymgynghoriad statudol gan yr adran gynllunio i geisiadau cynllunio newydd. 'Roedd Cyfoeth Naturiol Cymru eisiau ffigyrau claddu am y dair mlynedd ddiwethaf yn y fynwent bresennol ac mae'r cadeirydd wedi anfon y manylion iddynt ac maent yn hapus gyda'r wybodaeth yma. Mae Dŵr Cymru ar y llaw arall yn rhagweld problemau mawr oherwydd fod y beipan carthffosiaeth â'r beipan ddŵr yn mynd drwy'r safle felly mae'r cadeirydd wedi anfon manylion y cais gwreiddiol a ganiatwyd yn 2010 iddynt. Yn y cais gwreiddiol mae'r beipan carthffosiaeth yn rhedeg o dan y lôn â'r beipan ddŵr yn cael ei arallgyfeirio o gwmpas perimedr y fynwent ac nid oes dim wedi newid ers y cais gwreiddiol felly nid oes problem i fod. Mae'r cadeirydd wedi gofyn am gyfarfod safle i drafod hyn ond mae swyddfa'r swyddog sy'n delio hefo'r cais yn Gaerdydd ac felly ddim yn bosibl. Ni fydd yr adran gynllunio yn hapus i ganiatáu'r cais nes y bydd pryderon Dŵr Cymru wedi cael eu datrus. Dywedodd Claire Russell-Griffiths ei bod yn rhagweld y byddai trigolion Cysgod y Cwmwd yn gallu codi pryderon ynglŷn â'r broblem parcio sydd ganddynt ac y byddai creu mynwent newydd a'r cynnydd yn y trafndiaeth yn ychwanegu at y broblem, ond o edrych ar y cais ar y we nid oes gwrthwnebiad wedi cael ei dderbyn hyd yn hyn ac mae'r cyfnod ymgynghori wedi dod i ben. Gofynnodd Greta Hughes os ydi'r adran gynllunio yn rhoi gwybodaeth am wrthwynebiadau gan drigolion cyfagos ar y we, doedd hi ddim yn meddwl eu bod yn cyhoeddi'r wybodaeth yma felly mae'r cadeirydd am ebostio'r adran gynllunio i ofyn os oes rhywun wedi gwrthwynebu. Gofynnodd hefyd os oedd gan y cadeirydd fwy o fanylion ynghylch pam fod Dŵr Cymru yn gwrthwynebu ac mae'r cadeirydd am anfon ebost Dŵr Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i bawb.

9. Cae chwarae

Yn dilyn y pwyllgor dweithaf mae'r clerc wedi cysylltu hefo clerc Cyngor Cymuned Llanengan ynglŷn â cae chwarae Abersoch i ofyn os oeddent wedi cyfrannu arian tuag at y cae chwarae pan oedd yn cael ei ail wneud a'r ateb a gafodd oedd nad oeddent yn cyfrannu ond yn rhoi swm o arian ar y gyllideb tuag at y caeau chwarae i gyd sydd dan ofal y Cyngor Cymuned, nid yw'n cofio'r swm a wariwyd ar cae chwarae Abersoch gan fod blynyddoedd wedi pasio bellach. Fe fydd modd rhoi arian o hyn allan ar y gyllideb tuag at y cae chwarae gan ei fod yn mynd i fod yn

Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod 31/01/2022 7:00yh – O Bell - COVID-19

fudd mawr i'r pentref. Gofynnodd y cadeirydd i Alaw Ceris, cadeirydd pwyllgor cae chwarae os oeddynt wedi gwneud unrhyw gais am grant i ail wneud y cae chwarae ond yn anffodus nid yw wedi cael amser i wneud hyn eto oherwydd cyfrifoldebau eraill. Dywedodd Claire Russell-Griffiths fod rhaid cofio y bydd ward Mynytho yn ymuno hefo Cyngor Cymuned Llanbedrog o fis Mai ymlaen ac felly fe fydd dau gae chwarae o dan ofal y Cyngor Cymuned wedyn gan fod yna un yn Mynytho. Nid oedd y cadeirydd na'r clerc yn gwybod dim am hyn gan nad oes unrhyw wybodaeth wedi ei dderbyn yn swyddogol gan Cyngor Gwynedd, dywedodd y clerc nad oedd yn hapus gyda hyn oherwydd ei bod wedi creu cyllideb Cyngor Cymuned Llanbedrog ar gyfer y flwyddyn 2022-2023 yn seiliedig ar wariant y flwyddyn ddiwethaf a'r flwyddyn yma hyd yn hyn ac felly ni fydd y praesept yn ddigonol os y bydd ward arall yn ymuno hefo ni a'r holl gostau ariannol ychwanegol fydd hyn yn olygu sef cae chwarae ychwanegol a'r holl lwybrau cyhoeddus ychwanegol. Fe fydd rhaid aros i weld os fydd hyn yn digwydd ym mis Mai a gobeithio y bydd Cyngor Gwynedd yn rhoi gwybod yn swyddogol i ni.

10. Coronavirus covid-19

- Diweddariad
- Polisi Iechyd a Diogelwch

Dim diweddariad wedi ei dderbyn ond gobeithio y gellir cynnal cyfarfod ar ôl etholiad mis Mai yn y Neuadd.

11. Neuadd y Pentref

Codi prisiau llogi'r neuadd.

Nid yw'r cadeirydd wedi cael cyfle i siarad hefo Barbara Warren ynglŷn â beth yw'r prisiau llogi presennol felly penderfynwyd ei roi ar agenda mis nesaf ac mae'r cadeirydd am gysylltu hefo hi cyn y cyfarfod nesaf. Mae Alaw Ceris wedi sylwi o'r cofnodion diwethaf fod cwestiwn wedi cael ei ofyn pam fod goleuadau'r neuadd ymlaen am 5yh a dywedodd fod clwb gwarchod plant ar ôl ysgol yn cael ei gynnal yno yn ystod yr wythnos ac mae llawer o rieni'r pentref yn defnyddio'r gwasanaeth yma sydd yn adnodd mawr i'r pentref.

Taliadau wedi eu cymeradwyo

Cyflog y Clerc – Pat Humphreys	£366.53
Ann Llwyd – Cyfieithydd	£275.00
Ashley Hughes – cerdyn cydymdeimlo	£1.85
John B Jones – Ad-daliad Microsoft 360	£59.99
J A Pozzi – Taliad cytundeb cynnal llwybrau'r plwyf yn cynnwys gwaith ychwanegol Tymor 2021	£2892.00
Eisteddfod genedlaethol Boduan – cyfraniad a gytunwyd ym mhwyllgor Ionawr 2020 ond sydd heb ei hanfon.	£2500.00
J A Pozzi – Taliad cytundeb torri gwellt y fynwent Tymor 2021 – o gyfrif Nat West	£1332.00

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 31/01/2022 7:00yh – O Bell - COVID-19

Pat Humphreys – ad-daliad blodau nadolig £20.00
ar fedd Mrs Harris a'i rhieni – o gyfrif Nat

West

Taliadau wedi eu derbyn £145.00

G D Roberts – Angladd Eleanor Owen &
Gwilym Owen

Ceisiadau Cynllunio

C22/0033/38/DT – Y Llusern, 11 Glyn y Môr, Llanbedrog – Estyniad unllawr ochr.

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad.

C22/0040/38/LL – Tir ger Glennydd, Lôn Pin, Llanbedrog – Cais llawn i adeiladu tŷ fforddiadwy 5 ystafell wely newydd ar safle eithrio gweledig yn ogystal a chodi modurdy ar wahan a chreu mynedfa gerbydol.

Penderfyniad: Dim gwrthwynebiad ond gyda sylwadau/cwestiynau: 1. A yw maint y tŷ o fewn gofynion maint tŷ fforddiadwy? 2. Paham fod angen creu mynedfa newydd yn hytrach na defnyddio y fynedfa bresennol?

Unrhyw gais fydd wedi dod i law erbyn y cyfarfod.

Apêl rhif CAS-01531-Y8L2C5 – Derwen Deg, Llanbedrog – Dymchwel modurdy unllawr. Codi modurdy dwbl gyda anecs trosodd at ddefnydd personol yr Ymgeisydd a theulu a ffrindiau yn achlysurol.

Penderfyniad: Anfon y sylwadau gwreiddiol i wrthod a wnaed ar y cais cynllunio rhif: C21/0337/38/DT ac ychwanegu cynnwys llythyr Gareth a Menai Evans sy'n bryderus iawn am y sefyllfa parcio â'r trafndiaeth trwm o'r A499 heibio talcen tafarn Glyn y Weddw i lawr at Pentref Llan sydd drost y ffordd i safle yr apêl yma.

Gohebiaeth

1. **Clerks & Council Direct** – Newyddlen
2. **Un Llais Cymru** – Hyfforddiant
3. **CLILC** - 23.09.2020 Diweddariad am y coronafeirws gan
4. **Llywodraeth Cymru** - Datganiad ysgrifenedig y Gweinidogion Cam 2 y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth
5. **GIG** - AP Covid-19
6. **Llywodraeth Cymru** - Diweddariad - Cofio 2020
7. **Llywodraeth Cymru** - 30.09.2020 Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC
8. **CLILC** - 02.10.2020 Diweddariad am y coronafeirws
9. **Panel Annibynnol Cymru** - Ymgynghoriad Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnyddiaeth Ariannol – Chwefror 2021
10. **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** - Cylchlythyr Medi 2020
11. **Un Llais Cymru** - Hyfforddiant ar lein - Cymorth Cynllunio Cymru
12. **Un Llais Cymru** – Gwybodaeth am clyw
13. **Un Llais Cymru** - rhaglen gweminarau hyfforddiant 2020/21

Cais am gyfraniad

1. **Macmillan Cancer Support** – cais am gyfraniad ariannol
2. **Ambiwlans Awyr Cymru** – cais am gyfraniad ariannol
3. **Marie Curie** – cais am gyfraniad ariannol
4. **Dawns i bawb** – cais am gyfraniad ariannol

Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** *Community Council*

Cofnodion Cyfarfod 31/01/2022 7:00yh – O Bell - COVID-19

Gofynnodd Ian Goronwy Williams os yw'r clerc wedi anfon y llythyr llifogydd ar yr A499 o Pwllheli i Llanbedrog a cadarnhaodd y clerc ei bod wedi anfon y llythyr i'r Llywodraeth, Cyngor Gwynedd a Cyfoeth Naturiol Cymru ar y 31^{ain} o Ionawr. Fe wnaeth y clerc aros i gael ymateb gan bob un o'r Cyngorau Cymuned a Thref cyn anfon y llythyr ac fe wnaeth y 9 ohonynt gefnogi ein llythyr. Addawodd y clerc i anfon yr ebyst ymlaen i'r aelodau iddynt gael gweld eu sylwadau.

Gofynnodd y cadeirydd i'r clerc os ydi bob dim wedi cael ei sortio hefo'r cyfrifon banc a cadarnhaodd y clerc fod cyfrifon banc Nat West yn iawn ac mae ganddi fynediad iddynt drwy'r bancio ar lein felly fe fydd modd talu anfonebion am y fynwent drwy'r cyfrifon yma o hyn allan. Mae'r clerc yn cymeryd fod bob dim yn iawn hefo cyfrif Lloyds, mae hi wedi mynd a'r ffurflen i Claire Russell-Griffiths ers misoedd bellach i fynd i Lloyds er mwyn iddi hi fedru arwyddo'r sieciau ac heb glywed dim ganddi wedyn felly mae'n cymeryd fod hynny wedi cael ei sortio.

Cadeirydd yn cau'r cyfarfod am 8.20 y.h.